OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1679 (Cy. 163)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483, yr A489, yr A470 a'r A44 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Powys a Cheredigion) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mehefin 2013* |
| *Yn dod i rym* | *8 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd - Aberystwyth (yr A489, yr A470 a'r A44) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n codi o gludo llwyth anarferol na ellir ei rannu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Gorffennaf 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483, yr A489, yr A470 a'r A44 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Powys a Cheredigion) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2013.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â chludo'r llwyth anarferol na ellir ei rannu sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" *("transportation period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 8 Gorffennaf 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o

symud y llwyth anarferol na ellir ei rannu wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A483, yr A489, yr A470 a'r A44 yn Siroedd Powys a Cheredigion a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "person esempt" *("exempted person")* yw unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau brys neu'n gysylltiedig â chludo llwyth anarferol na ellir ei rannu.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, reidio unrhyw feic pedlo, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, ac eithrio person esempt, gerdded ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen, yn ystod cyfnod y cludo.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 ond yn gymwys ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y cyfeirir ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Mehefin 2013

***RICHARD MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr yn Llanymynech, Powys i'w chyffordd â chefnffordd yr A489 yn y Drenewydd, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A483 yn y Drenewydd, Powys i'w chyffordd â chefnffordd Caersŵs – Machynlleth yr A470 yng Nghaersŵs, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 Caersŵs – Machynlleth yng Nghaersŵs, Powys i'w chyffordd â chefnffordd Caerdydd – Llangurig yr A470 yn Llangurig, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Llangurig, Powys i'w chyffordd â ffordd sirol y B4343 ger Ponterwyd, Ceredigion.